# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0595 (FIN) a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid

**At Brynle Williams:**

Ar 12 Gorffennaf, fel cwestiwn atodol i OAQ595, gofynasoch i fi a oedd addasiadau yn y ddarpariaeth ariannol ar gyfer Tir Mynydd wedi cyfrannu at y ddarpariaeth o £5 miliwn ar gyfer gwerthuso yng nghyllid yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

Yr wyf wedi cyfeirio eich cwestiwn at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, sydd wedi cadarnhau nad oedd cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddarpariaeth a gynlluniwyd ar gyfer Tir Mynydd dan linell gwariant y gyllideb Tir Cymru a'r £5.2 miliwn a ddangosir yn llinell gwariant y gyllideb gwerthuso ariannu'r Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.